

CYNGOR TREF LLANELLI

COVID-19

Mae'r canlynol yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa bresennol mewn perthynas â Chyfleusterau'r Cyngor Tref yn ystod argyfwng COVID 19.

Mewn datganiad ar y cyd, nododd Arweinydd Cyngor Tref Llanelli, y Cynghorydd Shahana Najmi ac Arweinydd yr Wrthblaid, y Cynghorydd David Darkin mai 'Blaenoriaeth gyntaf y Cyngor Tref yw sicrhau diogelwch trigolion cymuned Llanelli. Yn ystod yr amseroedd anodd a heriol hyn, rydym yn galw ar bobl Llanelli i barhau i gefnogi ei gilydd ac i ddilyn cyngor Cenedlaethol a Lleol mewn perthynas â phellter cymdeithasol a golchi dwylo. Parhewch hefyd i ddefnyddio gwefannau Cyngor Sir Caerfyrddin ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i gael y wybodaeth ddiweddaraf. Mae dyletswydd ar bob preswlydd i ddilyn y cyngor hwn i sicrhau bod lledaeniad y firws yn cael ei leihau'.

Mae Swyddfeydd Cyngor Tref Llanelli yn yr Hen Ficerdy, Sgwâr Neuadd y Dref bellach ar gau i'r cyhoedd. Gellir cysylltu â'r swyddfa o hyd trwy ein rhif ffôn 01554 774352 ac e-bostio enquiries@llanellitowncouncil.gov.uk

Mae holl Ganolfannau Cymunedol Cyngor Tref Llanelli bellach ar gau, sef:

- Canolfan Cymunedol Glenalla, Heol Glenalla, SA15 1EE
- Canolfan Cymunedol Lakefield, Heol Lakefield, SA15 2UE
- Canolfan Cymunedol Llanerch, Heol Nant y Felin, SA15 3PA
- Canolfan Cymunedol Stryd Paddock, Stryd Paddock, SA15 2RU
- Canolfan Cymunedol St Barnabas, Stryd Llewelyn, SA15 1BD
- Canolfan Cymunedol Wesleyan, Stryd Campbell, SA15 2BW

Mae Canolfan Selwyn Samuel ar gau nes bydd rhybudd pellach. Bydd y Ganolfan yn cael ei defnyddio i ddarparu lle gwely ychwanegol ar gyfer darpariaeth gofal eilaidd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Heddiw, bydd y Cyngor Tref, yn dilyn canllawiau cenedlaethol a lleol, hefyd yn cau'r holl fannau chwarae caeedig o dan reolaeth y Cyngor, mae'r rhain yn cynnwys:

- Parc y Goron
- Parc Havelock
- Parc Morfa
- Parc y Bobl
- Parc Penyfan

Bydd caeau agored yn y parciau hyn yn aros ar agor ar hyn o bryd gyda'r holl breswylwyr yn cael eu hatgoffa o'r rheidrwydd llwyr i gadw pellter o 2m o leiaf oddi wrth ddefnyddwyr eraill.